

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 6ed o FAWRTH 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.**

**Presennol:** Alan Lewis (yn y gadair), Ian Evans, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Tyssul Evans, Linda Williams, Geraint Rosser, Geoff Hewitt, Richard Thomas, Meic Bowen, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Carrie Rees, Wendy Evans ac Ellis Jenkins

**Materion Personol**

**1654** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1655 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 06/02/2017 fel rhai cywir.

**1656 Materion yn codi.**

Tud 1. Cofnod Rhif 1606 - Toiledau'r Meinciau - Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â'r mater.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**1657** Bobath Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

**1658** Cylch Meithrin Llangyndeyrn - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £400.

**1659** Gofal Mewn Galar – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

*Cynghorwr Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1660** Meinciau Sports & Recreation Club - Gwresogydd Newydd – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £1905.28

*Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod*

*Cynghorwyr Linda Williams a Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1661** Llyfrgell Pontiets – Carped Newydd – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

*Linda a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod*

**1662** Neuadd Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd tuag at Sioe Adar

**1663** Tenovus - Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1664** Teenage Cancer Trust – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1665** Clwb Cyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

**1666** Comisiwn Ffiniau.- Newidiadau i Ffiniau Etholaeth Caerfyrddin- Nodwyd y llythyr.

**1667** Cyngor Sir Gar - Taliadau ar gyfer Goleuadau Troedffyrdd 2017/2018 - amcan brys o £12817.93- Nodwyd y Llythyr.

**1668** Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar – Gwahoddiad i'r Rali Flynyddol ar 13/05/17 – Nodwyd y Llythyr.

**1669** Cyngor Sir Gar – Enwebiad Ychwanegol i Lywodraethwyr Ysgol y Fro – Nodwyd y Llythyr.

**1670** Cyngor Sir Gar - Goleuadau Troedffyrdd 2016/2017 - Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r bil o £11871.36.

**1671** Band Llydan ym Mhontantwn a Chymuned Llangyndeyrn - Penderfynwyd gofyn i BT/OUTREACH i edrych ar y mater yn gyffredinol.

### **Ceisiadau Cynllunio**

**1672** Ceisiadau Cynllunio

- a) Cais Rhif W/35091- Mr Gerry McGivern – Waunygwiel Fawr, Pedair Heol – Dymchwel Ffarm ac Ail-adeiladu- Dim Gwrthwynebiad .
- b) Cais Rhif W/35103 - Mr Daniels - Danielan, Llangyndeyrn - Tŷ Gwydr ar ffrynt y Tŷ- Dim Gwrthwynebiad

### **Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis**

**1673** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Chwefror 2017. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

### **Adroddiad Ariannol Misol**

- 1674** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a)** Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Chwefror)
  - b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Chwefror)
  - c)** Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £100.00 (Mis Chwefror)
  - ch)** HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Chwefror)
  - d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Chwefror)
  - dd)** BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Chwefror)
  - e)** Inc a Nwyddau'r Swyddfa- £45.98
  - f)** Amlenni a Phapur - £23.19
  - ff)** Stampiau - £28.56
  - g)** Ffon y Syrfêwr - £40.00
  - ng)** Treuliau'r Syrfêwr - £29.50
  - h)** Rent y Llyfrgell - £1500.00
  - i)** Atgyweirio Goleuadau Nadolig Carwe - £1080.00
  - l)** Gwaith ar Reilffordd Pontiets

### **Polisiau'r Cyngor**

**1675** Cafwyd Cyfarfod o'r Is-bwyllgor Iaith heno a bydd copi o'r Polisi iaith yn cael ei osod o flaen y Cyngor nesaf.

### **Cod Ymddygiad**

**1676** Cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Linda Williams ein bod yn derbyn y Cod Ymddygiad a osodwyd ger bron y Cyngor.

**Archwiliad Mewnol 2016/2017**

**1677** Penderfynwyd gwahodd Mr Roger Thomas, Cyfrifydd o Gasllwchwr i fod yn Archwiliwr Mewnol i'r Cyngor am y flwyddyn 2016/2017

**Archwiliad Ariannol 2016/2017**

**1678** Nodwyd bod hysbysiad yr archwiliad am 2016/2017 wedi ei derbyn oddiwrth Cwmni Grant Thornton.

*Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**Shared Access**

**1679** Penderfynwyd mae'r Cyngor fydd yn codi'r Les ar Cwmni Shared Access ac nid y Clwb Rygbi.

*Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod*

**Cyfarfod nesaf:- 5ed o Ebrill 2017 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 6.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 5.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**